

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanethau Democrataidd
DYDDIAD	11 eg Gorffennaf 2017
PWNC	Rhaglen waith y Pwyllgor gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS	Blaenoriaethu materion ar gyfer llunio rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Geraint Owen, i gyfarfod y Cyngor llawn ar 15fed o Fehefin, 2017. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r hyn sydd wedi ei ddatblygu hyd yma i gefnogi aelodau, a hynny dros gyfnod y Cyngor blaenorol. Yn ogystal, roedd yn amlinellu yr elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu ac a fydd yn debygol o fod yn ffocws rhaglen waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.
2. Mae copi llawn o'r adroddiad i'w weld ar safle we'r Cyngor trwy'r ddolen isod:
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s12533/Adroddiad%20Blynyddol%20y%20Pennaeth%20Gwasanaethau%20Democrataidd%202016-17.pdf?LLL=1>
Mae'r rhan o'r adroddiad sy'n amlinellu'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu yn Atodiad A isod. Mae rhai diweddariadau eisoes i'w hadrodd – gwelir diweddariad lle'n briodol fesul eitem wedi eu dangos mewn *italics* yn yr atodiad.
3. Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ffurfio rhaglen waith synhwyrol, gohebwyd â'r holl aelodau er mwyn gofyn am unrhyw faterion yr oedden yn dymuno eu cyflwyno ar ran eu cyd-aelodau. Sylwadau am y ddarpariaeth Technoleg Gwybodaeth oedd yr ymatebion a dderbyniwyd.
4. Yn ychwanegol, awgrymaf fod yr eitemau isod angen sylw ar y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn:
 - i. Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig
 - ii. Ymgynghoriad ar lwfansau aelodau
 - iii. Cyfweiliadau datblygiad personol
 - iv. Siarter Aelodau
 - v. Materion TG
 - vi. Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
5. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor, mae rhaglen ddrafft wedi ei llunio yn Atodiad B. Noder nad yw'r holl eitemau wedi eu amserlennu, a bydd yn angenrheidiol addasu'r rhaglen i ymateb i faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn.
6. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd flaenoriaethu'r materion sydd angen sylw gan y Pwyllgor er mwyn addasu a chadarnhau'r blaen raglen waith ar gyfer y flwyddyn.

ATODIAD A

A beth sydd ar y gweill nesaf yn 2017/18 ac ymlaen?

Croesawyd 24 o aelodau newydd i'r Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2017, ac er mwyn eu cefnogi hwy a'r holl aelodau, mae'r cynlluniau isod ar y gweill:

- ❖ Anwytho dwys/ hyfforddiant – cynhaliwyd dyddiau croesawu ar gyfer y 9fed a 10fed o Fai eleni, ac adborth cychwynnol yn galonogol. Yn ogystal, mae rhaglen lawn o hyfforddiant a chyflwyno gwybodaeth wedi ei datblygu ar gyfer y flwyddyn eisoes. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn asesu y rhaglen hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau fod y materion cywir yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu ar gyfer rhaglen y flwyddyn ganlynol ac i'r dyfodol.
(Dyddiau croesawu wedi eu cynnal eisoes – eitem pwyllgor i asesu beth aeth yn dda a beth sydd angen ei addasu. Cyflwyniad hefyd ar ddysgu a datblygu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor)
- ❖ Datblygu'r model craffu newydd a'i weithredu – Penderfynodd y Cyngor ar y model craffu newydd yn ei gyfarfod ar yr 2il o Fawrth, 2017. Bydd gwaith penodol yn digwydd i sefydlu a gweithredu'r trefniadau newydd yn 2017/18.
(Gweithredu yn cychwyn yn awr)
- ❖ Trefniadau hawlio costau teithio a derbyn slipiau cyflog ar lein – Dros yr wythnosau diwethaf mae trefniadau wedi eu sefydlu i alluogi aelodau i hawlio costau teithio ar lein. Bydd gallu hawlio trwy ddulliau electroneg yn galluogi aelodau i fod yn prosesu eu hawliadau o gartref ar amser sy'n gyfleus iddynt, ac yn lleihau ar y gwaith papur i bawb.
(Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer i bob aelod hawlio costau teithio trwy'r system hunan wasanaeth.)
- ❖ Ymateb pellach i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwygio Llywodraeth Leol
- ❖ Ymgynghori yn barhaus gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd er mwyn adnabod meysydd i fod yn fwy effeithiol a gwella gwasanaeth
- ❖ Mabwysiadu disgrifiadau o rolau ar gyfer gwahanol swyddogaethau sydd gan aelodau. Mae aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd wedi gweithio i ddatblygu disgrifiadau o rolau ar gyfer y gwahanol gyfrifoldebau sydd gan aelodau. Fe'u datblygwyd ar gyfer sicrhau arweiniad clir ac eglurder o'r disgwyliadau mewn gwahanol rolau i aelodau. Bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 15fed o Fehefin i'w fabwysiadu.
(Cafodd y disgrifiadau o rolau eu mabwysiadu ar y 15fed o Fehefin 2017 gan y Cyngor Llawn)
- ❖ Sicrhau bod aelodau'n deall gofynion cyrff allanol o ran ymrwymiad i'r gwaith pe baent yn cael eu henwebu arnynt.
(Trefniadau ar gyfer adnabod aelodau i fod yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn digwydd yn awr, gan gynnwys cadarnhau y gofynion adrodd fesul corff).

- ❖ Parhau i ddatblygu'r Porth aelodau. Datblygiad diweddar ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd yw'r Porth Aelodau, sef 'mewnrwyd' i'r aelodau lle bo gwybodaeth defnyddiol ar gael mewn un lle canolog. Bwriedir ymgynghori yn gyson gyda'r aelodau er mwyn gwella'r adnodd hwn yn barhaus.
(porth aelodau wedi ei ddatblygu ar gyfer Mai 2017, bydd gwaith cyson ar ei ddatblygu dros y misoedd/ blynyddoedd i ddod)
- ❖ Rhoi cymorth i aelodau yn eu rol fel aelodau lleol. Mae'r mater yma wedi ei adnabod gan aelodau cyfredol, a bwriedir ceisio datblygu ffordd i aelodau ffeilio gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt o ran eu gwaith ward, yn hytrach na'u gwaith gyda'r Cyngor yn unig.
- ❖ Mae'r ymgynghoriad cyfredol ar Ffiniau Etholaethol gan y y Comisiwn Ffiniau ar y gweill, a phan ddaw canlyniad yr ymgynghoriad yn glir, bydd yn angenrheidiol paratoi ar gyfer ei weithredu o 2022 ymlaen.
(Ymateb y Cynor i gam cyntaf y gwaith wedi ei gadarnhau yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin, 2017. Disgwylir y bydd ymateb a chynnigion ffurfiol gan y Comisiwn Ffiniau ddechrau 2018, bydd angen ymateb iddynt bryd hynny).
- ❖ Parhau i ymgynghori gydag aelodau, yn arbennig aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch sut i wella'r gefnogaeth a roddir iddynt

ATODIAD B

11/07/2017
<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyniad i rol y Pwyllgor• Rhaglen waith y flwyddyn• Dyddiau Croesawu• Dysgu a Datblygu
19/09/2017
<ul style="list-style-type: none">• Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig• Cyfweiliadau datblygiad personol• Siarter Aelodau
05/12/2017 *
<ul style="list-style-type: none">• Ymgynghoriad ar lwfansau aelodau• Siarter Aelodau
12/04/2018
<ul style="list-style-type: none">• Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd• Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig

* dyddiad yn debygol o newid

Heb eu rhaglennu hyd yma

Materion TG

Hunan-wasanaeth a'r Porth aelodau

Papur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwygio Llywodraeth Leol

Cymorth i aelodau lleol